------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 5 Chwefror 2015**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sarah Beasley**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru

## Agenda

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Bil Llywodraeth Leol (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth 1 y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (09.15 – 10.45) (Tudalennau 1 – 22)

Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Gareth Thomas, Ymgynghorydd Polisi, Diwygio Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
Sharon Barry, Cyfreithiwr, Tîm Llywodraeth Lleol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau cefnogol:
Bil Llywodraeth Leol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

## 3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 23 – 43)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y

**cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod cyfan ar 11 Chwefror 2015 (dull craffu a briffio technegol mewn perthynas â'r Bil Rhentu Cartrefi; ystyried yr adroddiad drafft ar yr ymchwiliad i dlodi yng Nghymru).**

Egwyl (10.50 - 11.00)

**5 Bil Llywodraeth Leol (Cymru): trafod y dystiolaeth a gafwyd yn sesiwn 1 a sesiynau tystiolaeth pellach (11.00 - 11.10)** (Tudalennau 44 - 45)

**6 Bil Llywodraeth Leol (Cymru): trafod sesiynau tystiolaeth ymhellach 11.10 - 11.25)**

**7 Ystyried o raglen waith y Comisiwn Ewropeaidd (11.25 - 11.40)** (Tudalennau 46 - 62)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

5 Chwefror 2015 – Papurau i'w nodi

| Rhif papur: | Mater | Oddi wrth | Cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papurau cyhoeddus i'w nodi | | | |
| 1 | Bil Llywodraeth Leol (Cymru) | Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus | Llythyr gan y Gweinidog Gwasnaeathau Cyhoeddus ynglyn a'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru), yn cynnwys y Datganiad o Fwriad Polisi |

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LA/0017/15

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

27 Ionawr 2015

Annwyl Christine,

**Bil Llywodraeth Leol (Cymru)**

Yn sgil cyflwyno Bil Llywodraeth Leol (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Ionawr, rwy'n amgáu 'Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is- ddeddfwriaeth a Phwerau Deddfwriaethol Eraill a Ddirprwyir' sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

Mae'r Datganiad yn darparu gwybodaeth bellach ar y bwriad polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, cyfarwyddydau, penderfyniadau a chanllawiau y gellid eu gwneud dan ddarpariaethau'r Bil, os cânt eu deddfu.

Edrychaf ymlaen at gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Mae copi o'r llythyr hwn, a'r atodiad y sonnir amdano, yn cael eu hanfon at David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Leighton.Andrews@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

# Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth a Phwerau Deddfwriaethol Eraill a Ddirprwyir

Ionawr 2015

**Draft v. 3 (translation)**

**Bil Llywodraeth Leol (Cymru)**

**Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth a Phwerau Deddfwriaethol Eraill a Ddirprwyir**

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, cyfarwyddydau, penderfyniadau a chanllawiau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu grymuso i'w gwneud neu y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud dan ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ("y Bil").

2. Cyhoeddwyd y Datganiad i gynorthwyo Pwyllgor cyfrifol y Cynulliad wrth iddo graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Mae manylion gweithdrefn y Cynulliad sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn wedi eu nodi ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac ni chânt eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

3. Prif ddibenion y Bil yw:

- caniatáu ar gyfer gwaith paratoi penodol er mwyn galluogi rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol yng Nghymru; a

- hwyluso'r broses o uno gwirfoddol cynnar rhwng Prif Awdurdodau Lleol, erbyn mis Ebrill 2018.

Mae'r Bil hefyd yn diwygio darpariaeth ddeddfwriaethol gyfredol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (sy'n ymwneud â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a'r arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau lleol) a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (o ran adolygiadau etholiadol).

Tudalen y pecyn 27

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| **Uno gwirfoddol Awdurdodau Lleol** | | | | |
| 3(1) | Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n gosod dyddiad arall yn hytrach na hwnnw a nodir yn y Bil (h.y. 30 Tachwedd 2015) ar gyfer derbyn cais yn cynnig uno Prif Ardaloedd Awdurdodau Lleol yn wirfoddol.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â'r pŵer yn adran 5(1) gan fod 30 Tachwedd 2015 yn ddyddiad sydd wedi ei nodi yn y canllawiau, a fydd yn cael effaith statudol. | Mae'n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru newid y dyddiad yn y Bil ar gyfer derbyn ceisiadau i uno'n wirfoddol. | Mae'r dyddiad yn y Bil ar gyfer derbyn ceisiadau gan Brif Awdurdodau Lleol i uno eu hardaloedd yn dibynnu ar i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r Bil a chael Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2015. Gallai unrhyw oedi i hyn olygu y byddai angen defnyddio pwerau Gweinidogion Cymru i ohirio'r dyddiad ar gyfer derbyn ceisiadau, tan ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol, er mwyn hwyluso prosesau uno gwirfoddol. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w weithredu os oes angen. |
| 5(1) | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Brif Awdurdodau Lleol ynglŷn â materion sy'n ymwneud â cheisiadau o dan adran 3(1) yn cynnig uno Prif Ardaloedd Awdurdod Lleol sydd eisoes yn bodoli. | Mae angen i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i gynorthwyo Prif Awdurdodau Lleol gyda materion sy'n ymwneud â gwneud cais i uno'n wirfoddol. | Cyflwynodd Gweinidogion Cymru ganllawiau ar ffurf 'Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol' ("y prosbectws uno") ar 18 Medi 2014. Diben y canllawiau yw hwyluso gweithrediad y Bil, ac | Cyflwynwyd canllawiau ar 18 Medi 2014 a bydd adran 5(3) o'r Bil yn gweithredu'n ôl-weithredol i'w gwneud yn gymwys yn statudol. |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â'r pŵer yn adran 6(1) gan mai ceisiadau ar gyfer uno gwirfoddol cynnar fydd y sail ar gyfer unrhyw reoliadau uno a wneir o dan adran 6(1) | | maent yn nodi proses ac amserlen ar gyfer cwblhau prosesau uno gwirfoddol erbyn mis Ebrill 2018. | |
| 6(1) | Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau ("rheoliadau uno") i uno Prif Ardaloedd Awdurdodau Lleol ar ôl derbyn cais i uno o dan adran 3(1) o'r Bil.<br><br>Bydd y pŵer hwn yn rhoi effaith i geisiadau ar gyfer uno gwirfoddol cynnar arfaethedig o dan adran 3(1) (wedi eu llywio gan y canllawiau a gyflwynir yn adran 5(1)) y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol. | Bydd rheoliadau'n rhoi effaith i brosesau uno gwirfoddol ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn ceisiadau sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn bodloni'r egwyddorion a'r arweiniad sydd wedi eu cynnwys yn y prosbectws uno / canllawiau. | Bydd rheoliadau, ymhlith pethau eraill, yn sefydlu'r Brif Ardal a'r Cyngor ar gyfer yr ardal honno. Byddant yn cwmpasu ystod o faterion ymarferol gan gynnwys sefydlu Awdurdodau Cysgodol, amseriad etholiadau a darpariaethau canlyniadol ac ati i roi effaith lawn i'r uno. Rhoddir rhestr o ddarpariaethau, y mae'n rhaid eu gwneud mewn rheoliadau uno, yn adran 6(2).<br><br>Bydd rheoliadau'n cael eu haddasu i amgylchiadau arbennig pob achos penodol o uno. | Rhagwelir y bydd unrhyw reoliadau uno'n cael eu hystyried a'u gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2016.<br><br>Bydd angen cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y rheoliadau.<br><br>Diwrnod breinio'r Awdurdod(au) newydd sy'n uno'n wirfoddol fyddai 1 Ebrill 2018. |
| 7(4) | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ynglŷn ag arfer swyddogaethau gan Awdurdodau Cysgodol a | Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Awdurdodau Cysgodol a Swyddogion Gweithredol | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ynglŷn â swyddogaethau Awdurdod Cysgodol a Swyddogion | Cyhoeddir canllawiau cyn sefydlu Awdurdodau Cysgodol erbyn mis Ebrill 2017 ac ar ôl |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | Swyddogion Gweithredol Cysgodol a sefydlir neu a benodir yn unol â'r rheoliadau uno.<br><br>Mae'r pŵer yn adran 7(4) yn dibynnu ar y pŵer yn adran 6(1) gan y bydd angen canllawiau i lywio'r modd yr arferir swyddogaethau'r Awdurdodau Cysgodol a'r Swyddogion Gweithredol Cysgodol a ffurfir yn unol â darpariaethau mewn rheoliadau uno gwirfoddol. | Cysgodol ynglŷn ag arfer eu swyddogaethau wrth baratoi ar gyfer sefydlu Awdurdodau newydd. | Gweithredol Cysgodol, megis amseru'r uwch benodiadau ar gyfer y Prif Awdurdod newydd, penderfynu ar leoliad y Pencadlys, Cynlluniau Gwasanaeth a Datganiadau Polisi Tâl. | hynny pan fo angen. |

| Adran o’r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer a’r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| 10(2) | Caiff Gweinidogion Cymru trwy reoliadau sy’n gymwys yn gyffredinol wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol ac arbed at ddibenion rheoliadau uno neu o ganlyniad iddynt, neu ar gyfer rhoi effaith lawn i reoliadau uno.<br><br>Mae’r pŵer hwn yn gysylltiedig â’r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru yn adran 6(1), sy’n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau uno. | Caiff rheoliadau uno gynnwys darpariaeth ganlyniadol ac ati i hwyluso prosesau uno a rhoi effaith lawn iddynt. Efallai hefyd y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n gymwys yn gyffredinol i ymdrin â materion canlyniadol eraill. | Y bwriad yw y bydd pob achos o uno yn cael effaith trwy gyfres ar wahân o reoliadau uno. Os nodir mwy o faterion canlyniadol sy’n gyffredin i bob uno gwirfoddol, y bwriad yw ymdrin â hynny trwy gyfrwng rheoliadau sy’n gymwys yn gyffredinol o dan adran 10(2). Rhoddir rhestr o’r materion a allai gael eu cynnwys mewn rheoliadau canlyniadol ac ati yn adran 10(4). | Ar adegau priodol ar ôl gwneud rheoliadau uno a chyn y Diwrnod Breinio. |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| 10(10) | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio rheoliadau uno (a wneir o dan adran 6) neu i amrywio neu ddirymu rheoliadau cyffredinol (a wneir o dan adran 10(2)). | Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru amrywio rheoliadau uno (o dan adran 6), neu amrywio neu ddirymu rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol (o dan adran 10(2)) i ystyried amgylchiadau sydd wedi newid yn yr awdurdod ar ôl uno. | Gallai Gweinidogion Cymru fod yn dymuno amrywio rheoliadau uno, er enghraifft os yw Awdurdod Cysgodol yr Awdurdod newydd wedi gofyn am enwau ar gyfer yr Awdurdod sy'n wahanol i'r rhai a restrir yn y rheoliadau uno.<br><br>Gallai Gweinidogion Cymru fod yn dymuno amrywio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan adran 10(2) os oes amgylchiadau newydd wedi codi nad oedd darpariaeth ar eu cyfer yn y rheoliadau a wnaed. | Ar yr adegau priodol ar ôl gwneud y rheoliadau uno neu reoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol a chyn y Diwrnod Breinio. |
| **Pwyllgorau pontio** | | | | |
| 11 | Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Awdurdodau Lleol ar gyfer Prif Ardal newydd arfaethedig sefydlu pwyllgor pontio ar gyfer y Brif Ardal arfaethedig honno.<br><br>Gwnaethpwyd darpariaeth debyg i sefydlu pwyllgorau pontio yn adran 46 o Ddeddf | Wrth ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y gorffennol, bu'n rhaid sefydlu cydbwyllgorau pontio statudol i ystyried materion pontio a chynghori Prif Awdurdodau Lleol a oedd yn uno ynglŷn â hwy. Mae profiad blaenorol yn dangos bod y pwyllgorau hyn wedi gwneud gwaith gwerthfawr, ond y gallent fod | Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, fynnu bod Prif Awdurdodau Lleol y Prif Ardaloedd sydd i'w huno i greu Prif Ardal newydd (pa un ai trwy reoliadau uno gwirfoddol neu Fil neu Ddeddf wedi hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol), yn sefydlu pwyllgor pontio ar gyfer yr ardal newydd | Bwriedir y bydd rheoliadau uno, ar gyfer prosesau uno gwirfoddol, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgorau pontio ac yn pennu'r dyddiad ar gyfer eu sefydlu. Y bwriad yw i'r pwyllgorau pontio hyn gael eu sefydlu cyn |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ac adran 264 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | wedi bod yn fwy defnyddiol pe byddent wedi eu sefydlu ar sail statudol yn gynharach yn y broses. | arfaethedig honno.<br><br>Swyddogaeth y pwyllgor pontio yw paratoi ar gyfer sefydlu'r Awdurdodau newydd trwy gynnal gweithgareddau paratoi hanfodol, yn ogystal ag ystyried unrhyw beth arall y mae'r pwyllgorau'n ei ystyried yn fuddiol i sicrhau y bydd y Prif Awdurdod Lleol newydd yn gallu gweithredu'n effeithiol o'r dyddiad y mae'n ysgwyddo ystod gyflawn ei gyfrifoldebau. | gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill 2016.<br><br>Y bwriad yw y bydd rheoliadau ar wahân yn cael eu gwneud er mwyn sefydlu pwyllgorau pontio ar gyfer y prosesau uno hynny a fydd yn cael eu gweithredu trwy'r ail Fil Llywodraeth Leol ar ôl cyflwyno'r Bil hwnnw yn ystod hydref 2016. |
| 12(3) | Os na fydd yr Awdurdodau sy'n uno yn cytuno, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar nifer yr aelodau mewn pwyllgor pontio. Ni fyddai hyn yn destun gweithdrefn y Cynulliad.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 11 a sefydlu pwyllgorau pontio. | Gallai Awdurdodau sy'n uno fethu â chytuno ar nifer yr aelodau mewn pwyllgor pontio. Os yw'r angen yn codi, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu er mwyn osgoi oedi yng ngwaith pwyllgor pontio. | Os na fydd Awdurdodau sy'n uno yn gallu cytuno, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar faint pwyllgor pontio er mwyn sicrhau bod gwaith pwysig y pwyllgor yn gallu parhau. | I'w weithredu, drwy ymgynghori â'r Awdurdodau sy'n uno cyn belled â phosibl, os yw'n ofynnol yn unol â'r amserlenni uchod ar gyfer sefydlu pwyllgorau pontio. |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| 13(1)(c) | Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi cyfarwyddydau ynglŷn â materion ychwanegol y mae'n rhaid i'r pwyllgor pontio roi cyngor neu argymhellion mewn cysylltiad â hwy i'r Awdurdodau sy'n uno a'r Awdurdodau Cysgodol.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 11 a sefydlu pwyllgorau pontio. | Gallai materion godi na ragwelwyd mohonynt yn ystod y cyfnod pontio, a gallai fod angen i Weinidogion Cymru ychwanegu at y materion y mae'n rhaid i bwyllgor neu bwyllgorau pontio roi cyngor neu argymhellion ynglŷn â hwy i'r Awdurdodau sy'n uno a'r Awdurdodau Cysgodol. | Bydd canllawiau sydd i'w cyflwyno o dan adran 13(5) yn rhoi manylion prif swyddogaethau'r pwyllgorau pontio. Gallai amgylchiadau achos penodol o uno ei gwneud yn briodol cyflwyno cyfarwyddydau sy'n benodol i'r pwyllgor pontio ar gyfer yr achos hwnnw o uno, er enghraifft os bydd hwnnw (a dim un achos arfaethedig arall o uno) yn croesi ffiniau siroedd wedi'u cadw. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |
| 13(2) | Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo pwyllgorau pontio (yn unigol, pob un neu grŵp) i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r cyfarwyddyd hwnnw.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 11 a sefydlu pwyllgorau pontio. | Gallai fod angen i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i bwyllgor pontio unigol, pwyllgorau pontio penodol neu'r holl bwyllgorau pontio ynglŷn â'r dull o arfer eu swyddogaethau. | Byddai Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwn, er enghraifft, mewn amgylchiadau pan ystyriwyd nad oedd y pwyllgor pontio wedi rhoi digon o sylw i baratoi polisi Iaith Gymraeg priodol ar gyfer yr Awdurdod newydd. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |
| 13(5) | Caiff Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i bwyllgorau pontio ynglŷn â sut i arfer eu swyddogaethau. | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ynglŷn â'r amrywiaeth o weithgareddau paratoi y mae angen i Awdurdodau sy'n uno ymdrin â | Byddai'r canllawiau'n ymwneud yn bennaf â'r mathau o weithgareddau paratoi a'r prosesau ar eu cyfer yr ystyrir y dylai'r pwyllgorau | Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â sefydlu pwyllgorau pontio, neu pan fo angen ar gyfer materion |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 11 a sefydlu pwyllgorau pontio. | hwy er mwyn sicrhau bod y Prif Awdurdod newydd yn gallu gweithredu'n llawn ar y Diwrnod Breinio. | eu cynnal, a gallent gynnwys: Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, argymhellion ar gyfer Datganiadau Polisi Tâl, ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg, cytuno ar gyllidebau cyntaf, gosod cyfraddau treth gyngor a chyflwyno biliau treth gyngor. | na ragwelwyd mohonynt. |
| 15(2) | Os na fydd Awdurdodau sy'n uno yn cytuno, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar ddosrannu costau'r pwyllgor pontio.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 11 a sefydlu pwyllgorau pontio. | Gallai Awdurdodau sy'n uno fethu â chytuno ar sut i ddosrannu costau pwyllgor pontio. Os oes angen, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu sut i dalu costau'r pwyllgor er mwyn osgoi oedi yng ngwaith pwyllgor pontio. | Os yw Awdurdodau sy'n uno yn methu â chytuno, bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu sut i rannu costau'r pwyllgor pontio. Bydd hyn yn sicrhau nad yw anghytuno neu amwysedd gweinyddol posibl yn amharu ar waith pwyllgor pontio.<br><br>Bydd y modd y defnyddir y pŵer yn cael ei addasu i'r achos penodol o uno. | I'w ddefnyddio, drwy ymgynghori â'r Awdurdodau sy'n uno cyn belled â phosibl, os oes angen. |
| **Trefniadau etholiadol ac ati ar gyfer Prif Ardaloedd newydd** | | | | |
| 16(1) | Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn") i gynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau | Swyddogaeth y Comisiwn yw adolygu'n barhaus yr holl ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru a'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif | Mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu defnyddio eu pwerau cyfarwyddo i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddechrau gweithio ar adolygiadau o'r Prif | Cyflwynir cyfarwyddyd i Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol ac Awdurdodau sy'n cael eu gorfodi i uno ar ôl |

Tudalen y pecyn 34

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | etholiadol ar gyfer darpar Brif Ardal.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 6(1), yn achos prosesau uno cynnar gwirfoddol, a hefyd yn gysylltiedig â'r pwerau presennol yn adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). | Ardaloedd.<br><br>O dan ddeddfwriaeth bresennol, ni chaiff y Comisiwn ond cynnal adolygiad o'r Prif Ardaloedd sydd eisoes wedi eu sefydlu trwy statud. Bydd adran 16(1) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol o drefniadau etholiadol Prif Ardal arfaethedig.<br><br>Bwriad hyn yw sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cwblhau a bod trefniadau etholiadol newydd wedi eu sefydlu mewn pryd ar gyfer etholiadau cyntaf i Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol ym mis Mai 2018 ac i Awdurdodau sy'n cael eu huno gan yr ail Fil ym mis Mai 2019. Ni ellid bodloni'r amserlenni hyn o dan y trefniadau deddfwriaethol presennol. | Ardaloedd arfaethedig sydd i'w creu gan reoliadau uno neu gan ail Fil sydd i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.<br><br>Bydd cyfarwyddyd o dan adran 16(1) yn nodi'r Brif Ardal arfaethedig dan sylw a'r dyddiad y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru gydag argymhellion ynglŷn â'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Brif Ardal dan sylw. | cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil hwn.<br><br>Ar gyfer prosesau uno gwirfoddol, bydd y cyfarwyddydau'n cael eu cyflwyno mewn pryd i allu cwblhau a gweithredu adolygiadau cyn cynnal etholiadau yn 2018 ac, ar gyfer prosesau uno gorfodol, i allu cwblhau a gweithredu adolygiadau cyn cynnal etholiadau yn 2019. |
| 17(3) | Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynglŷn â sut i gynnal adolygiadau cychwynnol, gan | Bydd angen i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynglŷn â'r dull o gynnal adolygiadau | Bydd y cyfarwyddydau'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ym mha drefn y cynhelir yr adolygiadau, er mwyn rhoi | Rhoddir cyfarwyddydau ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil hwn. |

Tudalen y pecyn 35

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | gynnwys ym mha drefn y dylid cynnal adolygiadau a materion penodol y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth gynnal ei adolygiadau.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 16 a chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn i gynnal adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol mewn Prif Ardaloedd arfaethedig. | cychwynnol. | blaenoriaeth i unrhyw Awdurdodau sy'n cael eu sefydlu trwy uno gwirfoddol. Gallai cyfarwyddydau hefyd gynnwys maint mwyaf posibl cynghorau ar gyfer Prif Ardaloedd. | |
| 17(8) | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i'r Comisiwn ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 16 a chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn i gynnal adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol mewn Prif Ardaloedd arfaethedig. | Gall fod angen i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i'r Comisiwn ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol. | Gallai canllawiau o bosibl ymdrin â phriodoldeb wardiau â mwy nag un aelod, ardaloedd gwledig tenau eu poblogaeth a pharchu hunaniaeth cymunedau. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |
| 22(1) | Caiff Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, weithredu (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw argymhellion sydd | Bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried adroddiadau ac argymhellion y Comisiwn a gallant weithredu unrhyw | Mae angen y rheoliadau i sefydlu'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Awdurdodau newydd. Bydd cynnwys y | Ar gyfer prosesau uno gwirfoddol, gwneir rheoliadau erbyn mis Medi 2017 yn barod ar |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | wedi eu cynnwys mewn adroddiad gan y Comisiwn, ar ôl adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Ardal.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag adran 6(1) (ar gyfer uno gwirfoddol), ac mae'n dilyn ymlaen o bwerau a nodir yn adrannau 16(1) a 17(3) o'r Bil. | argymhelliad (gydag addasiadau neu hebddynt) sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiadau. | rheoliadau yn dibynnu ar yr adolygiadau a gynhelir a'r argymhellion a gyflwynir gan y Comisiwn.<br><br>Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r un sydd eisoes ar waith ar gyfer gweithredu trefniadau etholiadol o dan Ddeddf 2013. | gyfer etholiadau mis Mai 2018.<br><br>Ar gyfer prosesau uno gorfodol, gweir rheoliadau erbyn mis Medi 2018 yn barod ar gyfer etholiadau ym mis Mai 2019. |
| 22(5) | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan adran 22(1). | Gallai fod angen i Weinidogion Cymru amrywio neu ddirymu trefniadau etholiadol a wneir o dan adran 22(1) er mwyn ystyried newid mewn amgylchiadau yn yr awdurdod sydd wedi'i uno. | Gallai fod angen amrywio'r rheoliadau cychwynnol, er enghraifft i ystyried newid yn enw ward etholiadol a enwyd. Bydd angen dirymu'r rheoliadau pan fydd y Comisiwn yn cynnal ei adolygiad cyfnodol nesaf o'r trefniadau etholiadol yn yr Awdurdod newydd ac yn argymell newidiadau, gan olygu bod angen gwneud rheoliadau newydd. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |
| 23(2) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau etholiadol Prif Ardal arfaethedig, os nad yw'r Comisiwn wedi cyflwyno | Bydd Gweinidogion Cymru'n arfer y pŵer hwn pe na byddai'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiad ac argymhellion o fewn yr amserlen a nodir mewn cyfarwyddyd o dan | Defnyddir y pŵer hwn er mwyn osgoi oedi wrth greu cyngor y Prif Awdurdod newydd.<br><br>Mewn achos o'r fath, rhaid i'r Comisiwn gynnal ei adolygiad cyntaf o'r Brif Ardal newydd o | I'w arfer yn unig mewn amgylchiadau pan na fydd y Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad gydag argymhellion o fewn yr amserlen a |

Tudalen y pecyn 37

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | adroddiad ac argymhellion erbyn y dyddiad a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 16(1). | adran 16. | dan adran 29 o Ddeddf 2013 cyn gynted â phosibl ar ôl etholiadau arferol cyntaf y Prif Awdurdod Lleol newydd.<br><br>Mae'r pŵer yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn rannu gyda Gweinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae wedi ei derbyn neu waith y mae eisoes wedi ei wneud. | bennwyd yn y cyfarwyddyd. |
| 23(5) | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan adran 23(2). | Gallai fod angen i Weinidogion Cymru amrywio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan adran 23(2) er mwyn ystyried newid mewn amgylchiadau. | Gallai fod angen amrywio'r rheoliadau cychwynnol, er enghraifft i ystyried newid yn enw ward etholiadol a enwyd. Bydd angen dirymu'r rheoliadau pan fydd y Comisiwn yn cynnal ei adolygiad cyfnodol nesaf o'r trefniadau etholiadol yn yr Awdurdod newydd ac yn argymell newidiadau, gan olygu bod angen gwneud rheoliadau newydd. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |
| 24 | Caiff Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, ddiwygio adran 29(3) o Ddeddf 2013 i ailosod dyddiad cychwyn y cyfnod adolygu o 10 mlynedd ar gyfer | O dan Ddeddf 2013, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol yr holl brif Awdurdodau Lleol mewn cylch | Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig defnyddio eu pwerau i wneud rheoliadau i ddiwygio Deddf 2013 er mwyn ailosod y cylch adolygu 10 mlynedd fel | Y bwriad yw y bydd rheoliadau'n cael eu gwneud i ailosod y dyddiad cychwyn ar ôl i'r holl adolygiadau |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | trefniadau etholiadol, ar ôl sefydlu Awdurdodau newydd wedi'u huno. | adolygu deng mlynedd, yn dechrau yn 2013.<br><br>Bydd y rhaglen arfaethedig o uno Awdurdodau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiadau cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob Prif Ardal newydd cyn i'r holl etholiadau cyntaf gael eu cynnal yn yr ardaloedd hynny erbyn 2019. | ei fod yn dechrau ar ôl cwblhau'r adolygiadau cychwynnol ar gyfer yr Ardaloedd newydd. | cychwynnol gael eu cwblhau ac ar ôl i'r gorchmynion trefniadau etholiadol gael eu gwneud erbyn 2019. |
| **Trefniadau Cydnabyddiaeth Ariannol etc. ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol newydd** | | | | |
| 25(1) | Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel"), i arfer ei swyddogaethau o dan Fesur 2011, fel y'i haddaswyd gan y Bil, mewn perthynas â thâl a phensiynau aelodau o'r Awdurdodau Cysgodol a'r Prif Awdurdodau Lleol sy'n uno.<br><br>Nodir y pwerau presennol yn Rhan 8 o Fesur 2011 ac, yn achos uno gwirfoddol, maent | Mae gan y Panel amrywiaeth o swyddogaethau o dan Fesur 2011 mewn cysylltiad â thâl a phensiynau aelodau Awdurdodau Lleol.<br><br>Fel y Comisiwn, o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, ni chaiff y Panel ond arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â Phrif Awdurdodau Lleol sy'n bodoli eisoes (ymhlith eraill). | Bydd adran 25(1) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Panel i benderfynu ar dâl aelodau o'r Awdurdodau Cysgodol (y rhai hynny sy'n uno'n wirfoddol a'r rhai hynny sy'n cael eu huno gan yr ail Fil); a thâl aelodau o'r Prif Awdurdodau Lleol newydd yn barod ar gyfer yr adeg pan fyddant yn dod i fodolaeth. | Rhaid rhoi cyfarwyddydau ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil, a'u hamseru er mwyn gallu gwneud penderfyniadau (i) cyn sefydlu awdurdodau cysgodol; a (ii) cyn i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd ysgwyddo ystod gyflawn y swyddogaethau ar gyfer eu Hardaloedd. |

Tudalen y pecyn 40

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | yn gysylltiedig ag adran 6(1) o'r Bil. | | | |
| 27(3) | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i'r panel ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau o dan y Bil.<br><br>Nodir y pwerau presennol yn Rhan 8 o Fesur 2011 ac, yn achos uno gwirfoddol, maent yn gysylltiedig ag adran 6(1) o'r Bil. | Gallai fod yn angenrheidiol i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i'r Panel ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau. | Gallai canllawiau, er enghraifft, ymhelaethu ynglŷn ag amgylchiadau aelodau awdurdodau cysgodol a oedd hefyd yn aelodau o Awdurdodau presennol. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |
| 28(6) | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i bwyllgorau pontio ac Awdurdodau Cysgodol ynglŷn â'u swyddogaethau sy'n gysylltiedig â pharatoi datganiadau polisi tâl o dan y Bil.<br><br>Mae hwn yn datblygu'r ddarpariaeth bresennol yn adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011. | Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio wneud a chyhoeddi argymhellion i Awdurdod Cysgodol ynglŷn â dyletswydd yr Awdurdod Cysgodol i baratoi datganiad polisi tâl. Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ynglŷn â hyn. | Y bwriad yw y bydd y canllawiau yn datblygu'r canllawiau presennol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru ynglŷn â datganiadau polisi tâl. | Rhaid cyhoeddi canllawiau mor agos â phosibl at adeg sefydlu'r pwyllgorau pontio. |
| 35(3) | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i'r Panel ynglŷn ag arfer ei | O dan Fesur 2011, caiff y Panel ar hyn o bryd wneud argymhellion ynglŷn â | Y bwriad yw sicrhau bod mesurau diogelu wedi eu sefydlu i sicrhau bod | Rhaid cyhoeddi canllawiau cyn gynted â phosibl ar ôl cael |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | swyddogaethau, sydd wedi eu hymestyn dros dro, o dan adran 143A o Fesur 2011 ynglŷn â thâl prif swyddogion Prif Awdurdodau Lleol, yn y cyfnod rhwng cychwyn adran 35(1) o'r Bil a 31 Mawrth 2020. | datganiad polisi tâl Awdurdod sy'n berthnasol i gyflog, neu unrhyw newid arfaethedig i gyflog y pennaeth gwasanaeth cyflogedig (h.y. Prif Weithredwr neu Reolwr Gyfarwyddwr) Prif Awdurdod Lleol. Mae'r Bil yn darparu mesurau diogelu ychwanegol trwy ymestyn cyfrifoldebau presennol y Panel i gynnwys cyflogau'r holl brif weithredwyr tan fis Mawrth 2020. | cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod y cyfnod o ddiwygio (tan 31 Mawrth 2020) yn destun sylwadau a chyngor deallus gan gorff cyhoeddus annibynnol. | Cydsyniad Brenhinol i'r Bil. |
| 36(b) | Mae adran 36(b) yn ychwanegu is-baragraff newydd (1A) at atodlen 2 o Fesur 2011 i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, newid uchafswm nifer y bobl sydd i'w penodi fel aelodau o'r Panel.<br><br>Mae'r angen am y pŵer hwn yn deillio o'r gwaith ychwanegol a gyflwynir gan adran 35 o'r Bil ac mae'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth yn adran 36(a) sy'n cynyddu maint mwyaf y Panel o 5 i 6 | Diben y pŵer hwn yw ei gwneud yn haws cyflawni swyddogaethau'r Panel yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'n rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio nifer y bobl a benodir yn Aelodau o'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol. | Mae'r newid yn adran 36(a) yn cydnabod y bydd llwyth gwaith y Panel yn cynyddu'n sylweddol yn sgil ymestyn ei swyddogaethau o dan y Bil hwn, er mai dros dro y bydd hynny'n digwydd.<br><br>Bydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio eu pwerau i wneud rheoliadau i ddiwygio eto'r uchafswm a bennir ar gyfer aelodau'r Panel os yw ei lwyth gwaith yn y dyfodol yn awgrymu bod hyn yn briodol. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | aelod. | | | |
| **Cyfyngiadau ar drafodion gan Awdurdodau sy'n uno** | | | | |
| 32(4) | Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer, trwy reoliadau, i roi gwerth gwahanol ar gyfer trafodion a bennir yn is-adrannau 31(1), (3)(a), (3)(b), (5), (7) neu (8), sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau hysbysu neu gydsynio yn adrannau 29 a 30 o'r Bil.<br><br>Mae'r pŵer yn gysylltiedig â'r adrannau o'r Bil a nodir yn y paragraff blaenorol. Gwnaethpwyd darpariaeth debyg yn Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. | Er mwyn diogelu yn erbyn ymddygiad negyddol neu ymddygiad a allai fod yn niweidiol fel arall gan Awdurdodau sy'n uno yn y cyfnod cyn sefydlu Awdurdodau newydd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod sy'n uno ofyn am farn y pwyllgor pontio perthnasol, a chydsyniad yr Awdurdod Cysgodol pan fydd wedi ei sefydlu, cyn bwrw ymlaen â thrafodion sydd uwchlaw gwerth penodol a bennir yn y Bil. | Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod gwerthoedd pob math o drafodion ar wyneb y Bil yn briodol. Fodd bynnag, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi gwahanol werthoedd yn eu lle pe byddent yn ystyried hynny'n briodol er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid. | Mae hwn yn bŵer disgresiwn i'w ddefnyddio os oes angen. |
| 32(5) | Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Awdurdodau sy'n uno, Awdurdodau Cysgodol a phwyllgorau pontio ynglŷn â gweithredu'r darpariaethau cyfyngu yn y Bil.<br><br>Mae'n gysylltiedig ag adrannau | Gallai fod angen i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ynglŷn â gweithdrefnau gweinyddol ar gyfer gweithredu'r gofynion cyfyngu yn adrannau 29 i 31 o'r Bil. | Gallai fod angen canllawiau ynglŷn â gweithdrefnau gweinyddol ar gyfer ceisio barn gan bwyllgorau pontio, mynnu bod awdurdodau sy'n uno'n rhoi gwybod i drydydd parti bod angen atgyfeirio trafodion, a hysbysu trydydd parti am | Rhaid cyhoeddi canllawiau cyn gynted â phosibl ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil. |

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer a'r Cysylltiadau | Rheswm am y Pŵer | Bwriad Polisi | Amserlen a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| | 29 i 31. | | farn, cydsyniad a goblygiadau. | |

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon